**LC162**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae’r Gorchymyn hwn, a gafodd ei wneud o dan y weithdrefn weithredol, yn dod ag adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i rym ar 30 Ionawr 2001.

Mae adran 99 yn effeithiol mewn perthynas â’r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn unig. Mae’n sicrhau bod swyddogaethau sydd, am resymau drafftio technegol, yn cael eu nodi yn y Ddeddf fel swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, wedi’u breinio yn y Cynulliad.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

### Sylwadau Cyffredinol

Nid yw’n arferiad fel rheol i gynnwys y dyddiad dod i rym ar orchymyn cychwyn.

Gan hynny, dylai’r ddarpariaeth ar gyfer y dyddiad dod i rym ar frig y Gorchymyn gael ei ddileu ar y fersiwn sy’n cael ei hanfon at Wasg ei Mawrhydi i’w chofrestru ac at yr argraffwyr i’w hargraffu.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Chwefror 2001